

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Ymgynghoriad ar ganllawiau i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol

Gorffennaf 2017



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

Cysylltwch â ni ar **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (mewn print mwy o faint, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017

Cynnwys

Ynghylch y CFfC	4
Trosolwg	5
Y broses ymgynghori	6
Cyflwyniad	8
Rhan 1: Y fframwaith	9
Rhan 2: Y canllawiau	11
Sut y byddwn yn defnyddio'ch ymatebion	22
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	22
Cwestiynau'r ymgynghoriad	25
Monitro cydraddoldeb	29
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu casglu ynghyd	31

Ynghylch y CFfC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif swyddogaethau'n cynnwys:

- gosod safonau addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i ofidiau nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu er mwyn cyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i gadarnhau eu bod yn cyrraedd ein safonau

Trosolwg

Rydym yn gwybod bod gwaith tîm effeithiol yn rhan hanfodol o'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae'r Cyflwyniad i'r **safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig** yn egluro mai diben y safonau yw: "creu a chynnal yr amgylchedd cywir, yn sefydliadol ac yn ffisegol, ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol'.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chanllawiau i gefnogi'r safonau hynny, ac yn enwedig ein hawydd i gryfhau a sicrhau'r fframwaith rheoleiddio ynglŷn â staff fferyllol sydd heb eu cofrestru.

Yn y gorffennol, mae fferyllwyr unigol wedi bod yn atebol i'r CFFC am hyfforddi staff – dylai hyn fod yn gyfrifoldeb ar berchnogion fferyllfeydd.

Mae'r canllawiau drafft yn ei gwneud yn glir mai perchennog y fferyllfa sy'n gyfrifol am sicrhau bod staff fferyllol sydd heb eu cofrestru yn abl i gyflawni eu swyddogaethau.

Er bod hyn yn cryfhau atebolrwydd perchnogion fferyllfeydd, nid yw'n newid y cyfrifoldeb pwysig sydd gan fferyllwyr unigol i ddirprwyo tasgau ddim ond i bobl sydd â'r gallu, neu i staff sy'n cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo.

Mae'r canllawiau drafft hyn yn berthnasol ar gyfer pob aelod o staff fferyllol, gan gynnwys rheolwyr nad ydynt yn gofrestredig. Bydd yn egluro'r hyn y byddwn ni'n disgwyl i berchnogion fferyllfeydd ei wneud i asesu ac i sicrhau gallu eu staff, gan ystyried lleiafswm lefel gallu ar gyfer staff sydd ynghlwm wrth ddsbarthu a chyflenwi meddyginiaethau.

Mae'r canllawiau drafft yn canolbwyntio ar rôl y fferyllfeydd rydyn ni'n eu rheoleiddio. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod staff fferyllol

sydd heb eu cofrestru yn gweithio mewn nifer o leoliadau eraill, gan gynnwys ysbytai a meddygfeydd. Er nad ydym yn rheoleiddio'r lleoliadau eraill hyn, gobeithiwn y bydd y canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth ymarferol a fydd yn annog cysondeb sgiliau a galluoedd ledled y lleoliadau hyn.

Bwriad y canllawiau newydd, sy'n cefnogi'r Safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, yw disodli'r polisi sydd ar waith ar hyn o bryd ynglŷn â lleiafswm yr hyfforddiant sydd ei angen ar gynorthwywyr dosbarthu/fferylliaeth a chynorthwywyr cownteri meddyginiaethau.

Rydyn ni'n ymgynghori ar y canllawiau drafft ar gyfer perchnogion fferyllfeydd i sicrhau tîm fferylliaeth diogel ac effeithiol tan **11 Hydref 2017**.

Mae dwy ran i'r ddogfen ymgynghori hon:

Rhan 1: Y fframwaith

Mae'r rhan hon yn egluro'r hyn sy'n newid, a pham. Mae'n egluro'r hyn a wnawn nawr a'r hyn y cynigiwn ei wneud yn wahanol, a'r hyn a ystyriwyd gennym wrth benderfynu ar y newidiadau arfaethedig.

Rhan 2: Y canllawiau

Mae'r rhan hon yn crynhoi prif elfennau'r canllawiau ar gyfer perchnogion fferyllfeydd i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol.

Y broses ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad yn para am 12 wythnos o fis Gorffennaf tan fis Hydref 2017. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon i ystod o sefydliadau rhanddeiliaid, yn cynnwys cyrff cynrychioli proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac addysg, cyrff cynrychioli ac eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn.

Gobeithiwn y darllenwch y ddogfen ymgynghori hon ac yr ystyriwch ymateb iddi. Mae modd cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen o'n gwefan www.pharmacyregulation.org/pharmteamconsultation neu mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech y ddogfen mewn fformat gwahanol (mewn print mwy o faint, er enghraifft, neu mewn iaith wahanol).

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn nifer o ffyrdd. Gallwch gwblhau'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i www.pharmacyregulation.org/pharmteamconsultation a chwblhau'r fersiwn ar-lein yno.

Os yn cwblhau'r holiadur yn y ddogfen hon, e-bostiwch ef i:

consultations@pharmacyregulation.org gyda'r pennawd 'Ymgynghoriad ar ganllawiau i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol'

neu ei anfon atom drwy'r post, at:

Ymateb i Ymgynghoriad Tîm fferyllol diogel ac effeithiol

Tîm Safonau

Cyngor Fferyllol Cyffredinol

25 Canada Square

Llundain E14 5LQ

Sylwadau ar y broses ymgynghori

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori ei hun, e-bostiwch nhw i:

feedback@pharmacyregulation.org

neu eu hanfon drwy'r post i:

Y Tîm Llywodraethiant

Cyngor Fferyllol Cyffredinol

25 Canada Square

Llundain E14 5LQ

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn os gwelwch yn dda.



Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion sydd wedi dod i law. Bydd y cyngor yn derbyn yr adroddiad dadansoddi yn ei gyfarfod yn hwyr yn 2017. Byddwn yn ystyried yr adborth wrth bennu'r newidiadau arfaethedig yr hoffem eu gwneud i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer staff fferyllol sydd heb eu cofrestru, gan gynnwys y canllawiau newydd ar gyfer perchnogion fferyllfeydd.

Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwn i'r ymgynghoriad hwn. Bydd modd gweld hwnnw ar ein gwefan [**www.pharmacyregulation.org**](http://www.pharmacyregulation.org)

Cyflwyniad

Rydym yn cyhoeddi **safonau sy'n nodi'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol** mewn neu o fferyllfa gofrestredig a **safonau sy'n nodi'r ymddygiadau ac agweddau a ddisgwylir gan weithwyr fferyllol proffesiynol**. Gyda'i gilydd, nod y safonau hyn yw:

- creu a chynnal yr amgylchedd cywir ar gyfer ymarfer fferylliaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- darparu sicrwydd ynghylch diogelwch y gwasanaethau a roddir i gleifion a'r cyhoedd a hybu gwelliant ynddynt

Yn rhan o'n gwaith o edrych ar safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr, technegwyr fferyllol a phresgripsiynwyr annibynnol, credwn ei bod yn briodol i ni hefyd ystyried hyfforddiant staff fferyllol nad ydynt yn gofrestredig.

Rydym wedi cynnal ystod eang o ymgynghoriadau ac ymarferiadau gwerthuso dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r rhain wedi rhoi cefndir a mewnwleidiad defnyddiol i ni i swyddogaethau staff fferyllol sydd heb eu cofrestru, a'r atebolrwydd drostynt.

Mae gan gyflogwyr, a pherchnogion fferyllfeydd yn enwedig, rôl bwysig i sicrhau bod y tîm fferyllol, gan gynnwys staff fferyllol sydd heb eu cofrestru, yn abl ar gyfer eu swyddi.

Pwy yw'r staff fferyllol sydd heb eu cofrestru?

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng staff fferyllol cofrestredig a staff fferyllol sydd heb eu cofrestru.

Mae gan weithwyr proffesiynol cofrestredig ddyletswyddau a chyfrifoldebau fel gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys cyrraedd yr holl safonau a osodwn ar gyfer hyfforddiant ac addysg, datblygiad proffesiynol parhaus ac ymddygiad proffesiynol.

Mae staff fferyllol sydd heb eu cofrestru yn aelodau staff o fewn y tîm fferylliaeth nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio gan y CFC ond sydd ynghlwm wrth wasanaethau fferyllol mewn neu o fferyllfa gofrestredig. Maen nhw'n atebol yn bennaf i'w cyflogwr. Yng nghyd-destun fferyllfeydd cofrestredig, perchennog y fferyllfa fydd y cyflogwr fel arfer. Perchennog y fferyllfa sy'n gyfrifol am yr effaith a gaiff eu gwaith ar gleifion a'r cyhoedd.

Mae staff fferyllol sydd heb eu cofrestru yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau, yn cynnwys dosbarthu meddyginiaeth yn y fferyllfa, cynorthwyo ar gownteri, dosbarthu mewn cerbydau a rheoli fferyllfeydd. Weithiau maent yn weithwyr llawn amser, bydd rhai'n gweithio yn ystod y gwyliau'n unig. Gall eu cyfrifoldebau gynnwys: darparu gwybodaeth a chynngor ynghylch symptomau a chynnyrch; gwerthu a chyflenwi meddyginiaethau; derbyn a chasglu presgripsiynau, yn cynnwys rhoi eitemau at ei gilydd a'u dosbarthu; mynd â meddyginiaethau i gleifion; archebu, derbyn a storio stoc; ac arwain a rheoli timau.



Rhan 1: Y fframwaith

Wrth i fferylliaeth newid mae angen i ni sicrhau bod y rheoleiddio yn parhau i addasu ac ymateb. Mae hyn golygu bod yn eglur ynghylch y safonau a osodwn a sut y gallwn sicrhau cleifion a'r cyhoedd bod y safonau'n cael eu cyrraedd.

Pan sefydlwyd y CFFC yn 2010, etifeddodd nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer 'staff cymorth'. Credwn nad yw'r term hwn yn addas bellach a'i fod yn anghyson gyda dulliau llywodraethu ansawdd a gwaith tîm. Ond rydym yn gwybod mai'r staff hyn yw'r bobl gyntaf y daw cleifion a'r cyhoedd i gysylltiad â nhw gyntaf yn aml, a bod ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud at waith y tîm fferyllol.

Mae'r fframwaith polisi presennol wedi dyddio ac nid yw'n adlewyrchu'r rolau amrywiol o fewn fferylliaeth. Mae'n bryd adolygu a diweddarau ein dulliau er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon hyblyg, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn adlewyrchu anghenion cleifion a'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol.

Hanes

Cyn 2005, nid oedd unrhyw anghenion hyfforddi ac addysg ar gyfer staff fferyllol heb eu cofrestru. Roedd hyn yn cynnwys staff oedd yn dosbarthu a chyflenwi meddyginiaethau. O Ionawr 2005, roedd polisi Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain (RPSGB) yn nodi bod gan fferyllwyr ddyletswydd broffesiynol i sicrhau bod cynorthwywyr dosbarthu/fferyllol a chynorthwywyr cownteri yn abl yn y meysydd y gweithient ynddynt. Rhaid bod ganddynt gymwysterau i isafswm safon yn cyfateb ag unedau perthnasol Lefel 2 Sgiliau Gwasanaeth Fferyllol y Cymhwyster Galwedigaethol

Cenedlaethol (NVQ) neu Gymhwyster Galwedigaethol yr Alban (SVQ), neu'n hyfforddi tuag at hynny.

Yn 2010 mabwysiadodd y CFFC y lleiafswm anghenion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr fferyllol heb eu cofrestru, ac ymgymryd ag achredu cyrsiau cynorthwywyr dosbarthu a chynorthwywyr cownteri meddyginiaethau. Nid yw'r termau 'cynorthwydd cownteri meddyginiaethau' a 'chynorthwywyr dosbarthu' yn adlewyrchu rolau yn gywir. Mae 'cynorthwywyr dosbarthu', yn enwedig, yn derm ymbarél ar gyfer amryw o rolau cyflenwi meddyginiaethau i'r cyhoedd.

Mae **Polisi lleiafswm anghenion hyfforddi'r CFFC**, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor yn 2011, yn gosod cyfrifoldeb ar fferyllwyr unigol i sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn fferyllfa yn abl ar gyfer y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Y fframwaith presennol

Mae gan y CFFC ystod o rymoedd rheoleiddiol sy'n berthnasol ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol) ond nid yw'r rhain yn cynnwys staff fferyllol heb eu cofrestru. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig y mae'n rhaid i berchnogion fferyllfeydd eu cyrraedd.

Ar hyn o bryd, rydym yn gosod lleiafswm anghenion hyfforddi ar gyfer cynorthwywyr dosbarthu a chynorthwywyr cownteri meddyginiaethau, a rhaid cychwyn ar yr hyfforddiant o fewn tri mis yn y rôl. Rydym hefyd yn asesu cyrsiau drwy ein **proses gymeradwyo** er mwyn i ni allu sicrhau ansawdd y cyrsiau. Gofyniad proffesiynol, yn

hytrach na statudol, yw hyn ac nid yw ar waith ar gyfer rheolwyr sydd heb eu cofrestru.

Efallai nad yw gosod anghenion hyfforddiant ac addysg, ac achredu cyrsiau, yn addas bellach ar gyfer gweithlu deinamig ac o gofio'r newidiadau sy'n digwydd mewn gwasanaethau fferyllol, er enghraifft y twf mewn gwasanaethau iechyd y cyhoedd. Nid yw'n gweddu chwaith gyda'n fframwaith statudol, sy'n nodi bod ein pwerau achredu yn benodol ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at gofrestru'n fferyllydd neu'n dechnegydd fferyllol.

Er bod ein dull presennol yn rhoi rhywfaint o gysondeb, mae ystod o eithriadau hanesyddol i'r polisi, sydd – gydag amser – yn darparu llai a llai o sicrwydd. Rydym yn awyddus i greu atebolrwydd mwy priodol a thryloyw. Rydym hefyd am sicrhau bod hyfforddiant yn adlewyrchu'n fwy cywir y newidiadau sy'n digwydd i wasanaethau a ddarperir gan y tîm fferyllol.

Rydym am sicrhau ein bod yn rhoi sicrwydd mewn ffordd fwy effeithiol i'r cyhoedd bod gan y tîm fferyllol y sgiliau, y cymwysterau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Yr hyn rydym yn ei gynnig

Rydym wedi adolygu'r ffordd rydym yn achredu, yn anstatudol, raglenni hyfforddiant ar gyfer staff heb eu cofrestru. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ac yn amodol ar gymeradwyaeth ein cyngor llywodraethu, ni fyddem bellach yn cymeradwyo rhaglenni hyfforddi a chymwysterau unigol ar gyfer staff fferyllol heb eu cofrestru.

Byddai perchnogion fferyllfeydd yn gyfrifol am ddewis hyfforddiant addas ar gyfer eu staff a byddem ni'n darparu sicrwydd o hyn drwy ein gwaith rheoleiddio ar fferyllfeydd cofrestredig, gan gynnwys: monitro adborth a chanlyniadau drwy arolygiadau; adborth gan gyflogwyr ac eraill, gan gynnwys cyrff proffesiynol; a dulliau ymchwil a dadansoddi eraill. Y rheswm dros hyn yw bod gwasanaethau fferyllol, a'r rolau sydd eu hangen i'w darparu, yn dal i ddatblygu ac rydym am sicrhau y gall y ddarpariaeth hyfforddi fod yn ddigon hyblyg i allu ymateb i'r newidiadau hyn.

Ni fyddai hyn yn newid y cyfrifoldebau pwysig sydd gan berchnogion fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol i sicrhau bod gan unrhyw weithiwr sydd ynghlwm wrth ddosbarthu meddyginiaethau y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.

Rhan 2: Y canllawiau

Mae ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn disgrifio'r canlyniadau y disgwyliwn eu gweld ar gyfer cleifion a'r cyhoedd. Drwy osod canlyniadau, rydym yn galluogi perchnogion a gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddefnyddio'u crebwyll eu hunain ynghylch sut i sicrhau'r canlyniadau hynny.

Gall y ffordd y maen nhw'n sicrhau'r canlyniadau hynny amrywio yn ôl eu hamgylchedd, gan gynnwys eu cleifion a'r anghenion lleol. Mae'n bwysig i berchnogion fferyllfeydd dderbyn cyfrifoldeb dros ystyried sut i drefnu a hyfforddi eu timau i gyrraedd ein safonau. Fodd bynnag, mae angen i ni ystyried y wybodaeth, y sgiliau a'r galluedd sy'n rhan o'r tîm fferyllol fel cyfanwaith, ac rydym wedi ymgorffori elfennau allweddol o'r polisi isafswm anghenion hyfforddiant yn y canllawiau drafft.

Rydym wedi datblygu canllawiau i gefnogi egwyddor 2 y Safonau, sy'n dweud, 'Mae staff wedi eu hymbweru ac yn gallu diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd'.

Mae'r canllawiau yn nodi:

- y prif feysydd y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol
- cyfrifoldeb perchennog y fferyllfa i sicrhau bod staff fferyllol sydd heb eu cofrestru yn abl ar gyfer eu gwaith
- cyfrifoldeb y gweithiwr fferyllol proffesiynol i sicrhau bod unrhyw un y maen nhw'n dirprwyo tasg iddo neu iddi yn abl ac wedi ei hyfforddi'n briodol, ac i oruchwylio'n briodol

- bod rhaid i staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd ynghlwm wrth ddsbarthu meddyginiaethau feddu ar wybodaeth a sgiliau'r unedau perthnasol o gymhwyster lefel 2 cydnabyddedig¹, neu'n hyfforddi tuag at hynny
- pwysigrwydd bod staff mewn safleoedd rheoli neu arwain (a all fod yn gofrestredig neu heb eu cofrestru) yn deall bod gan weithwyr fferyllol proffesiynol gyfrifoldeb i flaenoriaethu diogelwch cleifion

Mae'r canllawiau drafft yn yr adran nesaf yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch sut i gymhwyso'r safonau at fferyllfeydd cofrestredig.

¹ Mae hyn yn golygu bod gan berson y wybodaeth a'r ddealltwriaeth am ffeithiau a gweithdrefnau sydd eu hangen i gwblhau tasgau penodol. Maent yn ymwybodol o'r ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes gwaith ac yn gallu dehongli gwybodaeth a syniadau i lywio eu gweithredoedd. (Ofqual Level Descriptors, 2015)

Mae'r adran hon yn dangos testun y canllawiau a gynigir

Canllawiau fferyllfeydd cofrestredig: tîm fferyllol diogel ac effeithiol

1. Ynghylch y canllawiau hyn

Mae Egwyddor 2 ein **safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig** yn nodi'n glir ein disgwyliadau bod 'Staff wedi eu hymwberu ac yn gallu diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd'.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi rhagor o gyngor i berchnogion fferyllfeydd ynglŷn â gwireddu'r egwyddor hon. Dylid eu darllen ar y cyd gyda'n safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, sef ein canllawiau cefnogi², a'n **Fframwaith gwneud penderfyniadau arolygu**. Prif ffocws y canllawiau hyn yw cyfrifoldeb perchennog y fferyllfa dros staff fferyllol sydd heb eu cofrestru - staff yn y tîm fferyllol sydd heb eu cofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFC) ond sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllol mewn neu o fferyllfa gofrestredig.

Egwyddor 2: Mae staff wedi eu hymwberu ac yn gallu gwarchod iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd'

- 2.1. Mae digon o staff, gyda'r cymwysterau a'r sgiliau priodol, ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol
- 2.2. Mae gan staff y sgiliau, y cymwysterau a'r gallu priodol ar gyfer eu rôl a'r tasgau a wneir ganddynt, neu maent yn gweithio dan oruchwyliaeth person arall wrth hyfforddi

Mae staff fferyllol sydd heb eu cofrestru yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau, yn cynnwys dosbarthu meddyginiaeth yn y fferyllfa, cynorthwyo ar gownteri, dosbarthu mewn cerbydau a rheoli fferyllfeydd. Weithiau maent yn weithwyr llawn amser, bydd rhai'n gweithio yn ystod y gwyliau'n unig. Gall eu cyfrifoldebau gynnwys: darparu gwybodaeth a chynghor ynghylch symptomau a chynnyrch; gwerthu a chyflenwi meddyginiaethau; derbyn a chasglu presgripsiynau, yn cynnwys rhoi eitemau at ei gilydd a'u dosbarthu; mynd â meddyginiaethau i gleifion; archebu, derbyn a storio stoc; ac arwain a rheoli timau.

² Mae'r CFC yn darparu ystod o ganllawiau sy'n cefnogi'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, gan gynnwys Canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y Rhyngwyd a Chanllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n paratoi meddyginiaethau didrwydded

2. Cyflwyniad

Rydym yn gwybod bod anghenion pobl sy'n derbyn gofal gan fferylliaeth yn dal i esblygu. Mae gwasanaethau fferyllol, a'r rolau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn, yn datblygu i adlewyrchu'r newidiadau. Rydym am gryfhau'r fframwaith er mwyn sicrhau bod y tîm fferyllol yn gallu ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd newydd y maen nhw'n eu hwynebu.

Bydd dulliau llywodraethu timau, a'r dulliau arwain a rheoli, a'r ffordd mae unigolion o fewn timau yn cydweithio, yn effeithio'n fawr ar ansawdd y gofal a dderbynnir gan gleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewn ac o fferyllfeydd cofrestredig.

Mae'r timau hyn yn aml yn cynnwys gweithwyr fferyllol cofrestredig - fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol - a staff fferyllol sydd heb eu cofrestru. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng staff fferyllol cofrestredig a rhai sydd heb eu cofrestru. Mae gan weithwyr cofrestredig ddyletswyddau a chyfrifoldebau fel gweithwyr fferyllol sy'n cael eu rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys cyrraedd yr holl safonau a osodwn ar gyfer hyfforddiant ac addysg, datblygiad proffesiynol parhaus ac ymddygiad proffesiynol.

Nid yw hyn yn wir yn achos staff fferyllol sydd heb eu cofrestru. Nid yw'r rhain yn cael eu rheoleiddio gan y CFfC ac maent yn bennaf atebol i'w cyflogwr. Yng nghyd-destun fferyllfeydd cofrestredig, perchennog y fferyllfa fydd hwn fel arfer. Perchennog y fferyllfa sy'n gyfrifol am yr effaith a gaiff eu gwaith ar gleifion a'r cyhoedd. I gyrraedd ein safonau a sicrhau'r canlyniadau cywir ar gyfer cleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, bydd angen i berchnogion fferyllfeydd sicrhau bod staff cofrestredig a staff sydd heb eu cofrestru'n gallu gweithio yn ddiogel ac yn effeithiol.

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd sicrhau bod pawb yn y tîm fferyllol yn gyfarwydd â'r safonau ac yn deall pwysigrwydd eu cyrraedd. Os mai 'corff corfforaethol' sy'n berchen ar fferyllfa gofrestredig (cwmni, er enghraifft, neu sefydliad GIG) mae gan y fferylllydd goruchwylol hefyd y cyfrifoldeb hwnnw.

Rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am redeg y fferyllfa'n gyffredinol ddiogel ystyried natur y fferyllfa, ystod y gwasanaethau a ddarperir, y model darparu - gan gynnwys ystyried a ddarperir y gwasanaeth mewn person neu o bell (ar-lein er enghraifft) - a'r pwysicaf oll, anghenion y cleifion a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

3. Llywodraethu

Mae perchnogion fferyllfeydd yn gyfrifol am greu'r diwylliant a'r amgylchedd cywir yn eu fferyllfeydd, yn ffisegol ac yn sefydliadol. Ond mae gan y tîm fferyllol – gweithwyr fferyllol proffesiynol a staff fferyllol heb eu cofrestru – rôl bwysig. Er bod egwyddorion llywodraethiant da yn gyson i bob math o fferyllfa, rydym yn derbyn y bydd fferyllfeydd yn cael eu rheoli mewn ffyrdd gwahanol, mewn dull addas i'w strwythur a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu addas ar waith i sicrhau bod gwasanaethau fferyllol o safon yn cael eu darparu ac i fonitro a gwella safonau gofal. Mae hyn yn cynnwys popeth, o systemau, prosesau a dulliau rheoli i ddulliau adnabod a rheoli risgiau, a gweithredu pan fo cyfle i wneud pethau mewn ffyrdd newydd a gwell.

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd gyrraedd ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig ac er bod nifer o wahanol ffyrdd o sicrhau llywodraethiant da, dylai perchnogion sicrhau:

- bod niferoedd a rolau staff yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ac yn cael eu hadolygu'n drefnus ac yn gyson er mwyn ystyried newidiadau mewn gwasanaethau a llwyth gwaith
- bod cynlluniau addas yn eu lle i ymdopi gydag absenoldeb staff
- bod pawb yn y tîm fferyllol yn ymwybodol o'u dyletswyddau a chyfrifoldebau ac yn deall dyletswyddau a chyfrifoldebau aelodau eraill y tîm
- bod staff fferyllol sydd heb eu cofrestru'n gweithio o fewn cyfyngiadau eu gallu ac yn cyfeirio at weithwyr fferyllol proffesiynol pan fo angen
- eu bod yn agored i syniadau newydd a datblygu rolau mewn ffordd sy'n briodol i weithrediad y fferyllfa
- bod asesiadau risg, sy'n benodol i'r fferyllfa a'r tîm sy'n gweithio yno, yn cael eu cynnal a bod gweithdrefnau yn eu lle i ddelio gyda risgiau yn effeithiol
- bod pawb yn y tîm fferyllol yn gwybod sut i asesu a lleihau risgiau gyda'r tasgau maen nhw'n gyfrifol amdanynt
- bod gan bawb yn y tîm fferyllol y wybodaeth a'r hyder i fynegi pryder ynghylch diogelwch, a chynnig gwelliannau
- bod pawb yn y tîm fferyllol yn deall egwyddorion preifatrwydd a chyfrinachedd ac yn gallu eu gweithredu
- bod pawb yn y tîm fferyllol yn deall eu cyfrifoldebau o ran diweddarau cofnodion cywir a chyflawn, ac o ran storio a rhannu gwybodaeth yn unol â gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu

4. Anghenion hyfforddiant ac addysg

Rhaid i bob aelod staff fod yn abl i gyflawni'r rôl mae'n ei chyflawni, ac wedi neu yn cael ei hyfforddi'n briodol ar ei chyfer.

Mae gwasanaethau fferyllol, a'r rolau sydd eu hangen i'w darparu, yn newid yn sgil amryw o ffactorau, gan gynnwys newidiadau cymdeithasol a newidiadau i anghenion cleifion. Dylai anghenion hyfforddiant ac addysg ar gyfer gweithlu mor amrywiol fod yn hyblyg ac yn gymesur er mwyn caniatáu i'r tîm fferyllol ymateb i newidiadau mewn ymarfer proffesiynol.

Er bod nifer o ffyrdd o sicrhau bod gan y tîm fferyllol y cymwysterau a'r sgiliau angenrheidiol ar bob adeg i allu diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, dylai perchnogion fferyllfeydd sicrhau:

- bod proses sefydlu ar waith ar gyfer staff newydd, yn benodol i'w swydd
- eu bod yn asesu gallu eu staff pan fônt yn dechrau yn eu swydd a ffurfio barn ddoeth ynghylch gwybodaeth neu hyfforddiant ychwanegol a allai fod angen arnynt. Dylai hyn gynnwys ystyried hyfforddiant ac addysg blaenorol yr aelodau staff, y cymwysterau sydd ganddynt, a phrofiad gwaith, yn ogystal â monitro eu perfformiad
- bod gan staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddsbarthu a chyflenwi meddyginiaethau y wybodaeth a'r sgiliau sy'n rhan o unedau perthnasol cymhwyster lefel 2 cydnabyddedig, neu eu bod yn hyfforddi tuag at hyn
- bod staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd angen hyfforddiant ac addysg pellach i gyrraedd y lefel gallu sy'n angenrheidiol ar gyfer eu rôl yn cael eu hymrestru ar raglen hyfforddi briodol o fewn tri mis i gychwyn eu rôl
- bod pob aelod staff yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi i weithio'n effeithiol yn eu rôl, ac yn parhau dan oruchwyliaeth person arall pan fônt yn hyfforddi
- bod anghenion eu cleifion a'u cymuned leol yn cael eu nodi a bod staff yn cael eu hyfforddi yn ôl hynny
- bod hyfforddiant yn cynnwys set gyffredin o sgiliau a galluoedd, gan gynnwys proffesiynoldeb, sgiliau cyfathrebu da a gweithio'n effeithiol mewn timau amlbroffesiwn
- eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethau yn yr hyn sydd ei angen mewn gwahanol leoliadau ymarfer ac ar gyfer gwahanol wasanaethau a ddarperir yn y lleoliadau hynny
- eu bod yn deall darpariaethau hyfforddi er mwyn gallu barnu pa gyrsiau sy'n addas ar gyfer staff. Gallai hyn gynnwys siarad yn uniongyrchol gyda darparwyr cyrsiau ynghylch anghenion hyfforddi
- eu bod yn cadw cofnodion cywir a chyflawn o hyfforddiant staff

5. Gwybodaeth, sgiliau a datblygiad

I gynnal tîm fferyllol galluog sydd wedi ei ymbweru, mae'n hollbwysig bod dysgu a datblygiad yn parhau y tu hwnt i hyfforddiant ac addysg cychwynnol. Dylai perchnogion fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol annog a galluogi cyfleoedd i adfyfrio ar berfformiad, a nodi anghenion dysgu a datblygiad. Dylai fod gan staff bŵer i allu defnyddio eu crebwyll eu hunain, gwneud eu penderfyniadau eu hunain pan fo hynny'n briodol, a bod yn rhagweithiol er budd cleifion a'r cyhoedd.

Er bod nifer o ffyrdd o sicrhau bod cyfuniad sgiliau staff yn parhau'n addas ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfa, dylai perchnogion fferyllfeydd sicrhau bod:

- y wybodaeth, y sgiliau a'r datblygu o fewn eu timau'n addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan y fferyllfa
- hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer rolau yn cael ei nodi a'i adolygu a'i ailasesu'n drefnus ac yn rheolaidd, mewn ymateb i newidiadau mewn anghenion ac amgylchiadau
- modd iddynt ddangos bod hyfforddiant wedi digwydd a bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei weithredu
- cynlluniau datblygu tîm ac unigolion ar waith i reoli bylchau mewn sgiliau
- y dulliau hyfforddi yn cael eu teilwra ac yn parhau gydol cyflogaeth yr unigolyn a bod gwybodaeth a sgiliau'r staff fferyllol yn gyfredol
- pob aelod staff yn cael ei annog i adfyfrio ar ei berfformiad, yn enwedig hyfforddeion, a bod unrhyw anghenion dysgu a datblygu yn cael eu nodi
- amser wedi ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant

6. Cynnal amgylchedd sydd â phobl yn ganolog iddo

Mae cael staff â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir yn rhan o'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae'r un mor bwysig bod staff yn arddangos y nodweddion a'r rhinweddau y mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yn disgwyl eu gweld. Yn aml, y sgiliau rhyngpersonol hyn sy'n gwneud i gleifion deimlo'n gyffyrddus ac mae'n gwneud gwahaniaeth i'r gofal a dderbyniant.

Er bod nifer o ffyrdd o hybu ymddygiad sydd â phobl yn ganolog iddo, dylai perchnogion fferyllfeydd sicrhau bod:

- y tîm fferyllol yn darparu gofal caredig sydd wedi ei addasu ar gyfer anghenion pob person
- y tîm fferyllol yn gwybod sut i ddarganfod anghenion ieithyddol a chyfathrebu unigolion
- y tîm fferyllol yn gallu addasu ei ffordd o gyfathrebu ac adnabod a lleihau rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol
- y tîm fferyllol yn gallu adnabod pobl a allai fod yn agored i niwed a gweithredu pan fo angen
- y tîm fferyllol yn helpu unigolion i wneud dewisiadau doeth am eu hiechyd a lles
- y tîm fferyllol yn gweithio gyda darparwyr gofal iechyd eraill i ddarparu gofal sydd yn gysylltiedig, er budd y cleifion
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yn gallu gweld yn hawdd pwy yw'r staff ac adnabod y rôl sydd ganddynt

7. Rolau arwain a rheoli

Mae gan reolwyr sydd â chyfrifoldeb dros arwain a rheoli timau a chydlynu llawer o weithgareddau dydd i ddydd fferyllfeydd hefyd rôl bwysig. Mae gan staff sydd mewn swyddi rheoli neu arwain – rai'n weithwyr fferyllol cofrestredig a rhai heb eu cofrestru – ddylanwad mawr ar ddiwylliant, arferion gwaith ac amgylchedd fferyllfeydd a'u darpariaeth.

Er bod nifer o ffyrdd o sicrhau bod rheolwyr yn deall eu cyfrifoldeb a chyfrifoldebau gweddill y tîm fferyllol, dylai perchnogion fferyllfeydd sicrhau bod:

- rheolwyr yn deall sut i reoli targedau neu gymhelliannau personol neu sefydliadol heb gyfaddawdu gofal diogel ac effeithiol
- prosesau addas yn eu lle i asesu bod gan reolwyr y gallu, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol yn eu rôl
- rheolwyr yn deall y fframwaith cyfreithiol a rheoliadol y maen nhw'n gweithio oddi mewn iddo ac yn deall cyfrifoldebau eu cyflogwr
- rheolwyr yn deall bod gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ddyletswyddau a chyfrifoldebau fel gweithwyr fferyllol proffesiynol, a'u bod yn atebol i'r CFC
- rheolwyr yn deall bod yn rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol flaenoriaethu diogelwch cleifion a gweithredu i ddiogelu lles cleifion a'r cyhoedd
- gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cael eu cefnogi a'u hymbweru i ddelio gyda sefyllfaoedd heriol yn hyderus ac yn broffesiynol, boed hynny'n golygu neilltuo digon o amser i gael sgysiau am sefyllfaoedd neu wybod y bydd gweithredu ar bryderon a fynegir
- rheolwyr yn sicrhau bod y tîm fferyllol yn gwybod ac yn deall gweithdrefnau'r fferyllfa

8. Gweithwyr fferyllol proffesiynol

Nod y canllawiau hyn yw helpu perchnogion fferyllfeydd. Fodd bynnag, mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol hefyd gyfrifoldebau o ran y tîm fferyllol.

Yn ein **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol**, dywed safon 9:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddangos arweiniad

Gweithredu'r safon

Gall pob gweithiwr fferyllol proffesiynol ddangos arweiniad, beth bynnag ei rôl. Mae arweiniad yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb am weithredoedd ac arwain drwy esiampl. Ym mha le bynnag y mae gweithiwr fferyllol proffesiynol yn gweithio, rhaid iddo neu iddi roi arweiniad i'r bobl mae'n gweithio gyda nhw ac i eraill. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- cymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith ac yn arwain y bobl maent yn gweithio gyda nhw
- asesu'r risgiau yn y gofal a ddarperir ganddynt a gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r risgiau mor isel â phosibl
- cyfrannau at addysg, hyfforddiant a datblygiad y tîm neu bobl eraill
- dirprwyo tasgau ddim ond i bobl gymwys sydd wedi eu hyfforddi'n briodol, neu sy'n cael eu hyfforddi, a sicrhau bod ganddynt drosolwg priodol dros y gwaith
- peidio â chymryd mantais ar eu sefyllfa neu ddylanwadu ar eraill i gymryd mantais ar eu sefyllfa nhwythau
- arwain drwy esiampl, yn enwedig o ran pobl sy'n gweithio tuag at gofrestru fel gweithwyr fferyllol proffesiynol

Mae cyfrifoldeb pwysig ar y cyd gan berchnogion fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol i sicrhau bod gan unrhyw aelod staff sydd ynghlwm wrth y gwaith o werthu a chyflenwi meddyginiaethau y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol yn ei rôl.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol deimlo'n hyderus bod unrhyw un y dirprwyir tasg iddo neu iddi yn abl ac wedi ei hyfforddi i wneud y dasg honno. Dylent sicrhau bod staff fferyllol sydd heb eu cofrestru yn deall yr hyn y gallan nhw ei wneud a'r hyn na ddylanwadu nhw ei wneud, a gwybod pryd i droi at weithiwr fferyllol proffesiynol.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol annog staff i ofyn cwestiynau i gleifion a gwranddo arnyn nhw mewn ffordd weithredol i sicrhau eu bod yn rhoi'r cyngor priodol. I wella ansawdd gwasanaethau a gofal, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol annog y tîm fferyllol i gofnodi, adolygu a dysgu wrth gamgymeriadau.

Mae'n bwysig i weithwyr fferyllol proffesiynol adolygu cynnydd staff maen nhw'n eu goruchwyllo neu'n eu rheoli (drwy werthuso, er enghraifft), rhoi adborth gonest ac adeiladol a gweithredu'n rhesymol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a allai fod gan aelodau'r tîm fferyllol.

9. Ffynonellau gwybodaeth eraill

Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan gyrff proffesiynol, darparwyr addysg a chyrrff annibynnol eraill. Mae rhai ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau posibl isod:

Hyfforddiant a darparwyr hyfforddiant achrededig y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)
www.rpharms.com/professional-development/accredited-events-and-training

Canolfan Addysg Fferyllol Ôl-radd (CPPE)
www.cppe.ac.uk

Canolfan Addysg Fferyllol Broffesiynol Cymru (WCPPE)
www.wcppe.org.uk

Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) – Deddf Gofal Iechyd a Chymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reolir) Rheoliadau 2014: Rheol 5 (personau addas ac abl)
www.cqc.org.uk/content/regulations-service-providers-and-managers

Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)
www.sqa.org.uk/sqa/66814.html

City and Guilds
www.cityandguilds.com

Pearsons
qualifications.pearson.com/en/home.html

Boots UK
www.boots-uk.com

Buttercups Training
www.buttercupstraining.co.uk

CIG Healthcare Partnership
www.counter-intelligence.co.uk

Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol (NPA)
www.npa.co.uk

Scientia Skills
www.scientiaskills.co.uk

Mediapharm
www.mediapharm.co.uk

Sut y byddwn yn defnyddio'ch ymatebion

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a ddywedwyd wrthym.

Ymateb fel unigolyn

Os ydych yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn rhestru'ch enw yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyhoeddi nac yn cyhoeddi eich ymateb.

Efallai y bydd angen i'r CFFC ddatgelu gwybodaeth o dro i dro dan y gyfraith sy'n ymwneud â mynediad i wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Yn yr amgylchiadau prin hyn bydd y CFFC yn cyflwyno ymatebion heb enw ynghlwm wrthynt neu'n gofyn am ganiatâd yr ymatebydd, ond sylwer na allwn warantu cyfrinachedd.

Ymateb ar ran sefydliad

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw eich sefydliad ac efallai y byddwn yn cyhoeddi eich ymateb yn llawn oni ddywedwch wrthym i beidio â gwneud hynny. Os ydych am i unrhyw ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a roddoch yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i'r CFFC ddatgelu gwybodaeth o dro i dro dan y gyfraith sy'n ymwneud â mynediad i wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Yn yr amgylchiadau prin hyn bydd y CFFC yn cyflwyno ymatebion heb enw ynghlwm wrthynt neu'n gofyn am ganiatâd yr ymatebydd, ond sylwer na allwn warantu cyfrinachedd.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ymateb i'r ymgynghoriad ar ganllawiau i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol

Cwestiynau cefndir

Hoffem ofyn am rywfaint o wybodaeth gefndir i gychwyn. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall barn grwpiau, unigolion a sefydliadau gwahanol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

Ydych chi'n ymateb:

- fel unigolyn – Ewch i adran A
- ar ran sefydliad – ewch i adran B

Adran A - Ymateb fel unigolyn

Rhowch eich:

enw:

cyfeiriad:

e-bost

Ble rydych chi'n byw?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Arall (rhowch fanylion)

Ydych chi'n ymateb fel:

- aelod o'r cyhoedd
- gweithiwr fferyllol proffesiynol – ewch i adran A1
- hyfforddai cyn-gofrestru
- myfyriwr
- arall (rhowch fanylion)

Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

Ydych chi'n:

- fferyllydd
- technegydd fferyllol
- perchennog fferyllfa

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio ble rydych chi'n gweithio'n bennaf:

- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa ysbyty
- sefydliad gofal sylfaenol
- hyfforddi ac addysg fferyllol
- diwydiant fferyllol
- arall (rhowch fanylion)

Adran B – Ymateb ar ran sefydliad

Rhowch ddisgrifiad byr o'r hyn mae eich sefydliad yn ei wneud a'i ddiddordeb yn yr ymgynghoriad penodol hwn:

Rhowch:

eich enw: _____

enw'ch swydd: _____

sefydliad: _____

cyfeiriad: _____

e-bost: _____

Enw cyswllt ar gyfer ymholiadau: _____

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio eich sefydliad orau:

- Sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- Sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferyllol
- fferyllfa annibynnol (1-5 fferyllfa)
- fferyllfa luosog (6 neu fwy o fferyllfeydd)
- sefydliad neu grŵp GIG
- sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant
- arall (rhowch fanylion)

Os ydych am i ymateb eich sefydliad aros yn gyfrinachol, nodwch pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gyfrinachol. Ni allwn warantu y cedwir cyfrinachedd ymhob achos.

- Cadwch rannau o ymateb fy sefydliad yn gyfrinachol

Nodwch pa rannau yr hoffech eu cadw'n gyfrinachol ac eglurwch pam:

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym o'r farn bod angen hyfforddiant ac addysg hyblyg sy'n adlewyrchu'r gwahanol anghenion ar hyd a lled pob sector. Mae gan berchnogion fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol rôl glir yn y gwaith o adeiladu timau sy'n torri ffiniau traddodiadol ac yn y gwaith o sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol gan eu timau fferyllol.

Mae gennym ddiddordeb penodol yn eich barn ar y pwyntiau canlynol, ond rydym yn croesawu sylwadau yr hoffech eu gwneud ar unrhyw faterion ynghylch y canllawiau drafft i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol.

Y fframwaith newydd

Ar hyn o bryd, drwy'r anghenion lleiafswm hyfforddiant presennol, mae fferyllwyr unigol yn atebol i'r CFFC am hyfforddi staff. Dylai'r cyfrifoldeb hwn fod ar y perchennog. Bydd y fframwaith newydd yn ei gwneud yn glir mai perchennog y fferyllfa sy'n atebol am sicrhau bod staff sydd heb eu cofrestru yn abl ar gyfer eu rolau.

1. Ydych chi'n cytuno gyda'r dull sy'n cael ei gynnig?

Ydw Nac ydw

Eglurwch eich rheswm dros hyn.

Canllawiau drafft

Rydym wedi datblygu canllawiau sy'n nodi'r meysydd allweddol sydd eu hangen er mwyn sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol, gyda ffocws penodol ar staff fferyllol sydd heb eu cofrestru. Maent yn cynnwys:

- llywodraethiant
- anghenion hyfforddiant ac addysg
- gwybodaeth, sgiliau a datblygiad
- cynnal amgylchedd â phobl yn ganolog iddo
- rolau arwain a rheoli

2. Ydy'r canllawiau drafft yn cynnwys yr holl feysydd allweddol sydd eu hangen i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol?

Ydyn Nac ydyn

3. Oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau y byddech yn ei gael yn ddefnyddiol? Rhowch fanylion.

Anghenion hyfforddi

Rydym am sicrhau bod hyfforddiant addas yn cael ei ddarparu ar gyfer pob aelod staff er mwyn i gleifion dderbyn gofal o safon. Ein nod yw creu fframwaith sy'n rhoi sicrwydd bod yr hyfforddiant hwn yn digwydd ar lefel briodol, ond ei fod hefyd yn ddigon hyblyg i alluogi cyflogwyr i deilwra hyfforddiant at anghenion y tîm a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

Mae'r canllawiau drafft hyn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddsbarthu a chyflenwi meddyginiaethau feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sy'n rhan o unedau perthnasol cymhwyster lefel 2 a gydnabyddir yn genedlaethol, neu eu bod yn cael eu hyfforddi tuag at hyn.

4. **Ydych chi'n cytuno gyda'r lleiafswm lefel galluedd ar gyfer staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddsbarthu a chyflenwi meddyginiaethau**

Ydw Nac ydw

Rhowch eich rheswm dros hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn ei gwneud yn glir y dylai staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd angen hyfforddiant ac addysg i gyrraedd y lefel alluedd angerheidiol ar gyfer eu rôl gael eu hymrestru ar raglen hyfforddi addas o fewn **tri mis** i gychwyn yn eu rôl.

5. **Ydych chi'n cytuno gyda'r dull sy'n cael ei gynnig?**

Ydw Nac ydw

Rhowch eich rheswm dros hyn.

Effaith

Rydym am wybod sut gallai'r newidiadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer hyfforddiant ac addysg staff fferyllol sydd heb eu cofrestru effeithio ar berchnogion fferyllfeydd, gweithwyr fferyllol proffesiynol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

6. **Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar *berchnogion fferyllfeydd***

Dim effaith

Cadarnhaol yn bennaf

Rhannol gadarnhaol

- Cadarnhaol a negyddol
- Rhannol negyddol
- Negyddol yn bennaf

7. Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar weithwyr fferyllol proffesiynol?

- Dim effaith
- Cadarnhaol yn bennaf
- Rhannol gadarnhaol
- Cadarnhaol a negyddol
- Rhannol negyddol
- Negyddol yn bennaf

8. Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar staff fferyllol sydd heb eu cofrestru?

- Dim effaith
- Cadarnhaol yn bennaf
- Rhannol gadarnhaol
- Cadarnhaol a negyddol
- Rhannol negyddol
- Negyddol yn bennaf

9. Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllo?

- Dim effaith
- Cadarnhaol yn bennaf
- Rhannol gadarnhaol
- Cadarnhaol a negyddol
- Rhannol negyddol
- Negyddol yn bennaf

10. Oes gennych sylwadau eraill?

Rydyn ni o'r farn y dylai'r canllawiau i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol gael effaith gadarnhaol ar bobl. Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw nodweddion a fyddai'n camwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion neu grwpiau sydd â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 nac yn eu gosod dan anfantais.

11. Ydych chi'n credu y gallai'r cynigion effeithio ar unigolion neu grwpiau penodol sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig?

- Ydw Nac ydw

Os ydych, eglurwch a rhowch enghreifftiau.

Rhagor o wybodaeth

Hoffem e-bostio ymatebwyr er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad hwn, a gwaith arall y CFFC. Dywedwch wrthym isod a hoffech i ni gysylltu â chi yn y dyfodol.

- Hoffwn i chi gysylltu â fi gyda'r diweddaraf am yr ymgynghoriad ar y canllawiau i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol.
- Hoffwn i chi gysylltu â fi gyda newyddion a gwybodaeth am ymgynghoriadau eraill y CFFC.



Monitro cydraddoldeb

Mae'r CFFC yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb, ac rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn y cyfan a wnawn fel rheoleiddiwr proffesiwn iechyd. Rydym yn ymrwymedig i gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb sydd arnom.

Rydym am sicrhau bod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar ganllawiau i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni i wirio bod hyn yn digwydd.

Nid oes rhaid i chi ei chwblhau os byddai'n well gennych beidio.

Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- Gwryw
- Benyw
- Arall

Beth yw eich cyfeiriadedd rhyw?

Ticiwch un blwch

- Heterorywiol/syth
- Menyw hoyw/lesbiad
- Dyn hoyw
- Deurywiol
- Arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn anabl?

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel "nam corfforol neu feddyliol sydd ag iddo effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar allu person i ymgymryd â gweithgareddau dydd i ddydd arferol". Ticiwch un blwch.

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

Beth yw eich grŵp oed?

Ticiwch un blwch

- 16 – 24 oed
- 25 – 34 oed
- 35 – 44 oed
- 45 – 54 oed
- 55 – 64 oed
- 65 + oed

Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch y blwch priodol i ddangos eich cefndir diwylliannol. Ticiwch un blwch.

Gwyn

- Prydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu deithiwr Gwyddelig

Gorffennaf 2017

- Cefndir gwyn arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Du neu Brydeinig Du

- Du Caribiaidd
- Du Affricanaidd
- Cefndir du arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Cymysg

- Gwyn a du Caribiaidd
- Gwyn a du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Cefndir cymysg arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Asiaidd neu Brydeinig Asiaidd

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Asiaidd arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd

- Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd
- Grŵp ethnig arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Arabaid

- Arabaid

Arall

- Gwell gennyf beidio â dweud
- Cefndir grŵp ethnig arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Bwdhaidd
- Cristnogol
- Hindŵaidd
- Iddewig
- Mwslimaidd
- Sikhaid
- Dim
- Arall (rhowch ragor o fanylion yn y blwch isod)
- Gwell gennyf beidio â dweud

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu casglu ynghyd

Bydd y fframwaith newydd yn ei gwneud yn glir mai perchennog y fferyllfa sy'n atebol am sicrhau bod staff sydd heb eu cofrestru yn abl ar gyfer eu rolau.

1. Ydych chi'n cytuno gyda'r dull sy'n cael ei gynnig??
Ydw / Nac ydw
Rhowch eich rheswm dros hyn.
2. Ydy'r canllawiau drafft yn cynnwys yr holl feysydd allweddol sydd eu hangen i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol?
Ydyn / Nac ydyn
3. Oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau y byddech yn ei gael yn ddefnyddiol?
Rhowch fanylion.
4. Ydych chi'n cytuno gyda'r lleiafswm lefel galluedd ar gyfer staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddsbarthu a chyflenwi meddyginiaethau?
Ydw / Nac ydw
Rhowch eich rheswm dros hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn ei gwneud yn glir y dylai staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd angen hyfforddiant ac addysg i gyrraedd y lefel alluedd angerheidiol ar gyfer eu rôl gael eu hymrestru ar raglen hyfforddi addas o fewn tri mis i gychwyn yn eu rôl.

5. Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a gynigir?
Ydw / Nac ydw
Rhowch eich rheswm dros hyn.
6. Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar berchnogion fferyllfeydd
Dim effaith
Cadarnhaol yn bennaf
Rhannol gadarnhaol
Cadarnhaol a negyddol
Rhannol negyddol
Negyddol yn bennaf
7. Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar weithwyr fferyllol proffesiynol?
Dim effaith
Cadarnhaol yn bennaf
Rhannol gadarnhaol
Cadarnhaol a negyddol
Rhannol negyddol
Negyddol yn bennaf
8. Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar staff fferyllol sydd heb eu cofrestru?
Dim effaith
Cadarnhaol yn bennaf
Rhannol gadarnhaol
Cadarnhaol a negyddol
Rhannol negyddol
Negyddol yn bennaf
9. Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?

Dim effaith
Cadarnhaol yn bennaf
Rhannol gadarnhaol
Cadarnhaol a negyddol
Rhannol negyddol
Negyddol yn bennaf

10. Oes gennych sylwadau eraill?
11. Ydych chi'n credu y gallai'r cynigion effeithio ar unigolion neu grwpiau penodol sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig?

Ydw / Nac ydw

Os ydych, eglurwch a rhowch enghreifftiau.



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org